Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i: Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Cynyddu'r gwres cyn 2160: Amser i gyflymu'r gwaith o drechu tlodi tanwydd

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad ar drechu tlodi tanwydd, sydd wedi gwneud sawl argymhelliad pwysig. Rydym wedi nodi ein hymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# Cynnwys


1. **Argymhellion ............................................................ 3**

Argymhelliad 1 ............................................................ 3

Argymhelliad 2 ............................................................ 4

Argymhelliad 3 ............................................................ 5

Argymhelliad 4 ............................................................ 7

Argymhelliad 5 ............................................................ 8

Argymhelliad 6 ............................................................ 9

Argymhelliad 7 ............................................................ 10

2. **Casgliadau ............................................................ 12**

Casgliad 1 ............................................................ 12

Casgliad 2 ............................................................ 12

Casgliad 3 ............................................................ 13

# 1. Argymhellion

## Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull o drechu tlodi tanwydd yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn drwy:

- ddiweddaru'r data sy'n llywio amcangyfrifon o dlodi tanwydd a chyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd cyfredol erbyn mis Medi 2025;

- gosod targedau tlodi tanwydd interim cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Medi 2025 fan bellaf; a

- chyhoeddi Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd diwygiedig erbyn diwedd mis Mehefin 2025 sy'n cynnwys camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gweithio i ddatblygu amcangyfrifon wedi'u diweddaru o dlodi tanwydd. Rydym wedi comisiynu'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu i gynnal asesiad tlodi tanwydd ac fe wnaethant ddechrau'r gwaith hwn ym mis Mawrth.

Bydd yr amcangyfrifon o dlodi tanwydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio'r tri sbardun tlodi tanwydd: effeithlonrwydd ynni'r cartref, incwm yr aelwyd a chostau tanwydd yr aelwyd. Bydd y dangosyddion yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd, y rhai mewn tlodi tanwydd difrifol a'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd. Byddwn yn gofyn am yr amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn rhagweld y bydd amcangyfrifon wedi'u diweddaru o dlodi tanwydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi.

Bydd yr amcangyfrifon diwygiedig hyn o dlodi tanwydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu targedau interim ystyrlon yn seiliedig ar raddfeydd EPC. Bydd swyddogion yn gofyn am fewnbwn gan y Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd cyn penderfynu ar y targedau terfynol.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r camau gweithredu yn ein Cynllun Tlodi Tanwydd. Bydd ein hadolygiad yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y deg cam gweithredu tymor byr yn y Cynllun a bydd yn cyflwyno camau gweithredu newydd i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni a gwella. Mae ein Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd wedi adolygu ein diweddariadau arfaethedig ar gyfer y Cynllun Tlodi Tanwydd a byddwn yn ymdrechu i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin.

**Goblygiadau Ariannol**

Bydd y gyllideb polisi tlodi tanwydd bresennol yn talu costau diweddaru'r amcangyfrifon o dlodi tanwydd.

## Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i fanteision FRESH ac offer mapio eraill a sut y gall partneriaid yn y llywodraeth ddefnyddio'r rhain i drechu tlodi tanwydd. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru geisio cyfarfod gyda Cymru Gynnes (ar lefel swyddogion) er mwyn cael gwell dealltwriaeth o offeryn mapio FRESH a darparu adnoddau yn dilyn hynny ar gyfer cyflwyno FRESH neu offer mapio tebyg i'w defnyddio gan gyrff perthnasol gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol. Byddem yn croesawu diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd Gorffennaf 2025 fan bellaf.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Prif achos tlodi tanwydd yw incwm isel. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn adnodd am ddim y gellir ei ddefnyddio i nodi ardaloedd sydd fwyaf tebygol o gynnwys aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd ac yn gymwys i gael ein cymorth. Gallwn ddefnyddio ein gwasanaethau data a dadansoddi mewnol i fapio ystod o ddata, megis amcangyfrifon o dlodi tanwydd yn erbyn MALIC ac yn erbyn materion eraill megis amodau tai.

Yn ogystal, mae ein gwasanaeth cyngor Nyth yn cynnwys allgymorth cymunedol. Drwy fynd allan ac ymgysylltu â chymunedau lleol, gallant nodi a chysylltu ag aelwydydd sydd angen ein help. Rydym hefyd wedi cydweithio ag awdurdodau lleol ar ddosbarthu taflenni mewn modd wedi’i dargedu, gan ddefnyddio data MALIC a chadarnhau'r aelwydydd targed drwy gydweithio â swyddogion awdurdodau lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST), sy'n darparu ein gwasanaeth cyngor ac atgyfeirio, yn defnyddio ystod o fesurau i dargedu ardaloedd ar gyfer cymorth. Mae eu gweithwyr allgymorth, drwy eu gwaith gyda sefydliadau ar lawr gwlad, hefyd yn darparu gwybodaeth ansoddol i ategu data meintiol i hwyluso targedu effeithiol.

Rydym yn gwybod bod amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio dulliau mapio bregusrwydd yn barod, gan gynnwys y Ganolfan Ynni Cynaliadwy a Chyngor ar Bopeth. Mae yna hefyd sefydliadau masnachol sy'n cynnig offer tebyg. Mae rhai o'r enghreifftiau rydym wedi’u gweld, fodd bynnag, yn cynhyrchu'r un wybodaeth i raddau helaeth ag y gellir ei chomisiynu o'n gwasanaethau data a dadansoddi mewnol.

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023 ac mae'n ofynnol iddynt roi sylw priodol i'r ddeddfwriaeth honno wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae egwyddorion tegwch, gonestrwydd a thryloywder yn berthnasol i bob gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chaffael. Rydym ar ddeall nad yw'r gwasanaethau a gynigir gan FRESH yn unigryw, a bod cyflenwyr eraill yn y farchnad sy'n cynnig gwasanaethau tebyg. Felly, byddai'n annheg hyrwyddo un cyflenwr ar draul rhai eraill yn yr achos hwn a byddai angen ystyried yr holl offer mapio bregusrwydd. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i ni ystyried yn ofalus pa fath o offer sydd ar gael yn barod a beth y

maent yn ei gynnig, yn ychwanegol at unrhyw beth y gallem ei gomisiynu'n fewnol, a gwerth am arian gwneud hynny.

Cyfarfu swyddogion â Cymru Gynnes ar 28 Ebrill i drafod yr offeryn FRESH a'i ddefnydd fel rhan o weithgareddau ehangach y sefydliad sy'n gysylltiedig â lliniaru tlodi tanwydd. Rydym wedi cael gwell dealltwriaeth o'r offeryn a'r data sylfaenol, sy'n deillio o setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus.

Rydym ar ddeall bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn gallu nodi eu haelwydydd bregus sydd mewn tlodi tanwydd ac nid ydynt wedi cysylltu â ni i ofyn am gyllid i gael mynediad at offer ychwanegol at y diben hwn. Ein dull yw caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu beth sy'n gweithio orau i'w hamgylchiadau lleol, yn hytrach na gosod dull o'r brig i lawr, er bod dealltwriaeth gyson o dlodi tanwydd ar lefel leol yn werthfawr wrth gwrs. Mae awdurdodau lleol yn dda am wybod sut i dargedu cymorth at eu haelwydydd difreintiedig. Byddem yn ystyried mai nhw ddylai benderfynu beth sy'n gweithio orau yn eu hardal eu hunain, er eu bod yn gallu rhannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd, ac yn gwneud hynny.

Rydym yn cefnogi awdurdodau lleol i sefydlu cynlluniau ECO4 LA Flex ledled Cymru; nawr bod y cynlluniau wedi'u sefydlu, yr her yw cael pobl leol i gymryd rhan a sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Mae swyddogion yn cynnal ymarfer gydag awdurdodau lleol yn yr haf i fireinio'r defnydd o'r cyllid hwn. Byddwn yn trafod y defnydd o offer bregusrwydd yn ystod y broses hon ac, os ydynt yn rhywbeth sydd eu hangen ar awdurdodau lleol, byddwn yn sicrhau y gallant ddefnyddio eu cyllid at y diben hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae cyllid awdurdodau lleol i gefnogi eu gweithgareddau ECO Flex yn dod o’u cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu maint rhaglen Nyth fel bod cymaint o gartrefi â phosibl yn cael eu cefnogi. Dylai wneud hyn drwy:

- barhau i weithio gydag adeiladwyr a gosodwyr i gynyddu capasiti a sgiliau yn y sector; ac

- ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol gan gynnwys unrhyw danwariant, neu arian canlyniadol fformiwla Barnett sy’n deillio o gynnydd mewn cyllid ar gyfer trechu tlodi tanwydd yn Lloegr, yn cael ei fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chyllid yn y flwyddyn ariannol 2025-26 i ddechrau a blynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae cynllun Nyth wedi creu swyddi yn y gadwyn gyflenwi ôl-osod, gan ddefnyddio crefftau lleol a rhoi hwb i'r galw am y sgiliau hyn mewn cymunedau ledled Cymru. Mae British Gas yn parhau i weithio'n agos gyda chontractwyr i sicrhau eu bod yn uwchsgilio eu gweithlu. Mae contractwyr yn darparu hyfforddiant a chymorth i bawb sy'n gweithio ar y cynllun i sicrhau eu bod yn gymwys wrth ddarparu gwaith i safonau PAS 2035. Safon PAS 2035 yw'r fframwaith swyddogol ar gyfer ôl-osod tŷ cyfan yn y DU, gan sefydlu'r prosesau a'r arferion gorau ar gyfer y diwydiant. Wrth i niferoedd gynyddu, mae British Gas yn parhau i weithio gyda chontractwyr ychwanegol i ateb y galw.

Mae problemau gosodwyr a chadwyni cyflenwi yn gyffredin yn y diwydiant ôl-osod ledled y DU. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gymryd camau mewn perthynas â'r anghydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw sy'n effeithio ar ein gallu i ddarparu gosodiadau o safon yn gyflym yng Nghymru.

Mae gosodwyr presennol a darpar osodwyr yn gallu cael mynediad at gyfrifon dysgu personol, sy'n rhoi mynediad am ddim i gyfleoedd hyfforddi. Rydym yn gweithio gyda'r sector addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru i sicrhau bod darpariaeth cyrsiau yn diwallu'r angen.

Bydd pwysau'r galw ar y gadwyn gyflenwi gyfan o gynhyrchion a gwasanaethau mewn effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel yn cynyddu yn y tymor canolig. Rydym yn parhau i asesu'r ddarpariaeth dros amser ac yn cynllunio darpariaeth hyfforddiant yn unol â hynny. Fel rhan o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, rydym wedi datblygu Dangosfwrdd Amgylchedd Adeiledig Cymru i gynorthwyo'r gadwyn gyflenwi i hyrwyddo ei hun ac i gael mynediad at gymorth busnes, gan gynnwys hyfforddiant.

O ran cyllid, byddwn yn parhau i sicrhau bod unrhyw danwariant sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau. O fewn y portffolio tai, rhaid i ni gydbwyso'r angen am fwy o gartrefi gyda gwella eiddo presennol a lleihau costau tanwydd i'r rhai sydd mewn tlodi.

Rydym yn cydnabod bod cynllun Nyth hefyd yn eistedd ochr yn ochr â mentrau eraill megis ECO4, nad ydynt yn dibynnu ar gyllid y llywodraeth. O ganlyniad, rydym wedi cefnogi awdurdodau lleol i uwchraddio gweithgarwch ECO4 drwy sefydlu cynlluniau ECO4 LA Flex, a thrwy hynny gynyddu mynediad at gyllid rhwymedigaethau cwmnïau ynni.

Mae newidiadau i gyllid yn Lloegr ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'n grant bloc drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hynny'n penderfynu ar beth y dylai'r grant bloc gael ei wario. Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, ddylai benderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid o'r grant bloc, trethi datganoledig a benthyca cyfalaf. Pan fo achos dros ddefnyddio'r cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio yn unol â'u blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebu briodol.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae costau sicrhau bod contractwyr yn fedrus ac yn gymwys i gyflawni gofynion y contract yn cael eu talu drwy gyllideb y rhaglen.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad presennol o Nyth yn cynnwys gwerthusiad o'r canlynol:

- y broses a ddefnyddir gan aseswyr i ystyried bod pympiau gwres ffynhonnell aer yn briodol ar gyfer anghenion unigolyn yn ogystal â bod yn briodol ar gyfer yr eiddo; a
- sut y gall y cynllun wella codi ymwybyddiaeth a hyfforddi deiliaid tai i ddeall technolegau mwy newydd, gan gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer.

Dylai hyn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2025.

**Ymateb: Derbyn**

Yn y broses bresennol, mae aseswr ôl-osod yn ymweld â phob eiddo i gynghori ar fesurau addas gan ddefnyddio dull tŷ cyfan. Yna, mae'r asesiad tŷ cyfan hwn yn cael ei adolygu gan dîm annibynnol o arbenigwyr ynni, cyllid ac ôl-osod, sy'n penderfynu ai'r mesurau a nodwyd yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer pob eiddo er mwyn cyrraedd y targedau gofynnol ar gyfer lleihau biliau, lleihau carbon a pherfformiad ynni.

Fel rhan o'r adolygiad presennol, ac yng ngoleuni newidiadau diweddar i reolau PAS, ers 1 Ebrill rydym wedi cynnwys boeleri nwy fel mesur posibl ar gyfer eiddo lle nad yw pympiau gwres ffynhonnell aer (ASHP) yn addas. Byddwn yn parhau i adolygu'r mesurau sydd ar gael drwy'r rhaglen ac yn eu diweddaru pan fo angen.

Ar hyn o bryd, mae aseswyr ôl-osod yn darparu cyngor ac arweiniad i bob cwsmer ar y mesurau sy'n cael eu gosod yn eu heiddo. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r adolygiad presennol, mae British Gas yn datblygu Pecyn Gwybodaeth i Gwsmeriaid a fydd yn darparu gwybodaeth a chyngor manwl ar y defnydd o fesurau sydd wedi'u gosod. Bydd y pecyn hwn ar gael i bob cwsmer o haf 2025.

Yn ogystal, mae ein cynghorwyr Nyth yn darparu gwybodaeth sy'n chwalu mythau ynghylch technoleg carbon isel fel rhan o'u gweithgarwch cyfathrebu a marchnata.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu hariannu o fewn cyllideb y rhaglen.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad presennol o Nyth yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

- nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwrthod a sut mae'r cyfraddau hyn yn cymharu ag iteriadau blaenorol o'r cynllun; a'r

- hyfforddiant a'r datblygiad a ddarperir i weithwyr achos Nyth gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am y cynllun.

Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2025 fan bellaf a dylid rhannu ei ganlyniadau â’r Pwyllgor.

**Ymateb: Derbyn**

Ers gweithredu'r iteriad newydd o Nyth, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwrthod. Fel rhan o'r adolygiad parhaus, mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddeall y rheswm dros y cynnydd hwn ac i archwilio atebion i leihau'r gyfradd hon. Ers mis Tachwedd, mae sawl mesur lliniaru wedi'u cyflwyno, gan gynnwys:

- Ehangu'r llwybr argyfwng i gynnwys holl ymgeiswyr cymwys Nyth.
- Ehangu'r meini prawf i gynnwys y rhai mewn eiddo sydd â sgôr EPC D, a fyddai wedi cael eu cynnwys ar restr aros o'r blaen.
- Galluogi cwsmeriaid i ddarparu dogfennau angenrheidiol yn ystod ymweliadau cartref, yn hytrach na'u lanlwytho ar-lein.
- Cynnwys boeleri nwy fel mesur posibl, lle nad yw ASHP yn addas.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau i'r rhaglen – o 106 ym mis Rhagfyr i 266 ym mis Chwefror a 279 ym mis Mawrth. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, byddwn yn monitro effaith y newidiadau hyn ar nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwrthod ar ôl cael eu trosglwyddo i British Gas gyda'r disgwyliad y byddwn yn gweld gostyngiad sylweddol.

Er bod swyddogion yn ymwybodol o'r dystiolaeth a ddarparwyd ynglŷn ag anghysondeb y cyngor a roddir gan gynghorwyr Nyth, rhaid nodi bod sgôr net hyrwyddwyr ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid fel rhan o'r arolwg diwedd galwad wedi aros ar lefel heb ei hail drwy gydol blwyddyn y contract. Yn ogystal, gwellodd y sgôr hyrwyddwr net ar gyfer yr arolwg post/e-bost o 'dda' am weddill blwyddyn y rhaglen i 'ardderchog' am y tro cyntaf ym mis Mawrth, gan ddangos bod gwelliant parhaus yn cael ei flaenoriaethu wrth i'r cynllun ennill ei blwyf.

Fodd bynnag, gyda rhaglen o'r maint hwn, mae'n anochel y bydd rhai cwsmeriaid nad ydynt yn hollol fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei gael, yn enwedig gyda rhaglen yn ei dyddiau cynnar. Ers sesiwn dystiolaeth y pwyllgor ym mis Rhagfyr, mae swyddogion a'r

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi gweithio gyda Cymru Gynnes a Gofal a Thrwsio i nodi enghreifftiau lle mae'r cyngor a ddarparwyd wedi bod yn anghywir neu'n is na'r disgwyliadau. Mae Gofal a Thrwsio wedi gallu darparu nifer isel iawn o enghreifftiau lle mae anghenion hyfforddi wedi'u nodi, sydd bellach wedi cael sylw. Er nad oes unrhyw enghreifftiau o hyfforddiant penodol wedi dod i law gan Cymru Gynnes, mae swyddogion wedi cytuno ar linell gyfathrebu er mwyn cael gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt yn y dyfodol.

Fel rhan o broses sefydlu cynghorwyr ffôn, mae pob cynghorydd yn cael hyfforddiant penodol i raglen Nyth, sy'n cwmpasu taith y cwsmer, cymhwystra, prosesau a gweithdrefnau Nyth, rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a hyfforddiant cydymffurfio a diogelu data.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r holl gynghorwyr ymgymryd â chwrs NEA City & Guilds Energy Awareness 6281-01 (Lefel 3) fel safon. Byddant hefyd yn mynd drwy broses sefydlu gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd yr holl gynghorwyr yn ymgymryd â hyfforddiant darparu cyngor ynni sy'n canolbwyntio ar gyngor ymddygiad ac arbedion posibl y gall cwsmeriaid eu cyflawni drwy wneud newidiadau syml. Maent hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant asesu incwm ac yn cael eu profi bob chwarter. Mae pob cynghorydd hefyd yn cael ei brofi ar gymhwystra Nyth bob chwarter.

Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd wedi datblygu cwrs cyngor ynni mewnol ar gyfer tîm Nyth, sy'n cynnwys y modiwlau canlynol, a fydd yn cael eu cyflwyno o fis Mehefin.

Modiwl 1: Cyflwyniad i ôl-osod a sero net

Modiwl 2: Technolegau – esboniad o weithrediadau allweddol a ffocws ar y manteision i ddeiliaid tai

Modiwl 3: Nodi anghenion cwsmeriaid a pharu atebion e.e. gofyn y cwestiynau cywir i ddeall anghenion cwsmeriaid

Modiwl 4: Senarios ymarferol a chwarae rôl

Mae ein contractwyr yn cael eu mesur yn ôl nifer y cwynion a gafwyd. Drwy gydol blwyddyn gyntaf y rhaglen, mae hyn wedi aros yn is nag 1% o'r niferoedd y mae'r cynllun wedi'u cefnogi, sydd o fewn ein targed o 3%.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim. Mae'r datblygiadau a'r gwelliannau a nodir yn cael eu hariannu drwy gyllideb y rhaglen.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymaint o dryloywder â phosibl a bod data monitro perfformiad allweddol mewn perthynas â Nyth yn cael eu cyhoeddi o leiaf bob blwyddyn.

Dylid cwblhau'r argymhelliad hwn yn unol â'r cylchoedd adrodd ar gyfer adroddiadau blynyddol Nyth.

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol**

Dim.

## Argymhelliad 7

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu ei datblygiad a sefydlu cynllun newydd ar sail ardal fel mater o frys. Er mwyn sicrhau atebolrwydd, dylai Llywodraeth Cymru nodi map llwybr o amserlenni a cherrig milltir rhwng nawr a'r dyddiad targed ar gyfer mynd yn fyw (pan gaiff y mesurau effeithlonrwydd ynni cyntaf eu gosod yn ffisegol mewn eiddo) erbyn diwedd mis Mehefin 2025. O ystyried y bwlch sylweddol ers diwedd y cynllun diwethaf, byddem yn disgwyl i'r map llwybr hwn fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ar hyn o bryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu opsiynau ar gyfer datgarboneiddio o fewn ardaloedd daearyddol, fel dull i ategu’r cynllun Nyth sy'n cael ei arwain gan alw. Mae ystyriaethau'n cynnwys lledaeniad daearyddol tai aneffeithlon o ran ynni, atebion technoleg posibl ac effeithiau ar arbedion maint. Maent hefyd yn ystyried y nifer fawr o gynlluniau ardal sydd eisoes wedi'u cwblhau drwy Arbed, a oedd yn elwa ar gyllid yr UE nad yw ar gael i ni mwyach.

Yn y cyfamser, rydym eisoes yn cefnogi rhai cynlluniau gydag anghenion technegol penodol. Er enghraifft, rydym yn ariannu gwaith mewn dwy ystad Ffederasiwn Haearn a Dur Prydain yng Nghaerdydd. Mae'r cartrefi'n dechnegol heriol, yn gyffredinol oer ac yn anodd eu gwresogi, gyda rhai yn eiddo i'r awdurdod lleol ac eraill dan berchnogaeth breifat. Rydym wedi cytuno i ariannu ôl-osod pob cartref, waeth beth fo'u deiliadaeth, fel un prosiect.

Mae ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi ariannu landlordiaid cymdeithasol i gynnig ôl-osod ar sail ardal lle mae nifer sylweddol o gartrefi cymdeithasol ochr yn ochr â thai mewn deiliadaeth arall. Mae'r opsiwn hwn ar gael i unrhyw landlord cymdeithasol pan fydd yn asesu cynlluniau posibl.

Pe bai achos cadarn dros gynllun newydd ar sail ardal, byddai angen ei gynnwys mewn cais Cylch Gwario yn y dyfodol a'i ystyried ar gyfer cyllid ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill. Y dewis arall yw trosglwyddo arian o gynllun Nyth, sy'n wrthgynhyrchiol. O

ganlyniad, ni fyddwn mewn sefyllfa i osod map llwybr ystyrlon erbyn diwedd mis Mehefin, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol**

Byddai sefydlu unrhyw gynllun newydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol, gyda’r swm yn dibynnu ar raddfa unrhyw gynllun.

# 2. Casgliadau

## Casgliad 1

Rydym yn nodi nad yw buddsoddiad uniongyrchol yn y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2021-22 wrth gyfrif am chwyddiant ac y bydd hyn, ynghyd â chostau uwch sy'n gysylltiedig â thechnolegau mwy newydd wedi erydu pŵer prynu'r cyllid hwn dros amser.

**Ymateb:**

Rydym yn cydnabod bod chwyddiant adeiladu, a chostau uwch technolegau newydd a phecynnau ôl-osod cymhleth, wedi cael effaith ar nifer y cartrefi y gallwn eu cynnal o fewn cyllideb gymharol wastad. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn adlewyrchu'r cyfyngiadau sylweddol a osodwyd arnom gan y cyllid a gawsom gan Lywodraeth flaenorol y DU dros nifer o flynyddoedd. Croesewir mwy o gyllid ar gyfer 2025-26, ac rwy'n falch fy mod wedi gallu sicrhau cynnydd cymedrol i gyllideb Nyth, yng nghyd-destun galw sylweddol ar gyllid ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod y gyllideb yn adlewyrchu'r hyn y gallwn ei gyflawni, ac mae hynny'n dibynnu'n rhannol ar gapasiti contractwyr yng Nghymru i gyflwyno'r rhaglen i safon PAS2035 y diwydiant. Mae'r safon hon yn sicrhau nad ydym yn wynebu'r un problemau o ran crefftwaith gwael ag y mae Llywodraeth y DU yn eu hwynebu yn eu cynlluniau ECO a GBIS.

Os gwelwn y gallwn ragori ar y cyflawni disgwyliedig mewn unrhyw flwyddyn, mae gennym y gallu i ystyried dyraniadau cyllid yn ystod y flwyddyn yn y modd arferol.

## Casgliad 2

Mae'n siomedig bod TrustMark wedi bod yn amharod neu'n methu â darparu data wedi'u dadgyfuno yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau atebolrwydd, rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i bwyso ar y mater hwn a rheoli ansawdd gyda hwy a chyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

**Ymateb:**

Bydd swyddogion yn parhau i siarad ag Ofgem a Trustmark am y mater hwn. Yn y cyfamser, mae'r ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd ar effeithlonrwydd ynni aelwydydd yn cynnwys data defnyddiol a siartiau i olrhain cynnydd, gan gynnwys gwahaniaethau ar lefel awdurdod lleol: **Household Energy Efficiency Statistics, detailed report 2024 - GOV.UK**

## Casgliad 3

Rydym yn ailadrodd ein galwadau blaenorol (a wnaed yn fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26) i Lywodraeth Cymru ymdrechu'n fwy dygn i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio methodoleg Policy in Practice ar draws y bwrdd.

**Ymateb:**

Yn gysylltiedig â'r gwaith i symleiddio Budd-daliadau Cymru gyda'r nod o archwilio'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â rhannu data, mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chynllun peilot 12 mis ar y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau gan weithio gyda Low Income Family Tracker (LIFT) Policy in Practice.

Dechreuodd y cynllun peilot gwirfoddol ym mis Ionawr 2025 gyda 12 awdurdod lleol ledled Cymru yn cymryd rhan. Gan ddefnyddio LIFT, bydd yr awdurdodau hyn yn gallu nodi a thargedu'n uniongyrchol breswylwyr sy'n colli allan ar eu hawliau ariannol.

Yn ogystal â'r 12 awdurdod lleol ar y cynllun peilot, mae 2 awdurdod ychwanegol sy'n defnyddio LIFT, sy'n golygu cyfanswm o 14 awdurdod ledled Cymru.

Fel rhan o'r cynllun peilot, cynhelir gwerthusiad cadarn a fydd yn llywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch ai defnyddio offeryn dadansoddi data megis LIFT yw'r ffordd orau o gynyddu incwm aelwydydd.